



HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 3 Rhagfyr 2013
Tabled on 3 December 2013

Bil Rheoli Ceffylau (Cymru)
Control of Horses (Wales) Bill

Antoinette Sandbach

6

Section 7, page 4, after line 13, insert—

- (6) Welsh Minsters must refer the dispute for the consideration of an appointed person under section [*section to be inserted by amendment 7*].
- (7) The Welsh Ministers must, when making a determination under subsection (6), have regard to the recommendations made by the appointed person under section [*section to be inserted by amendment 7*](1).'

Adran 7, tudalen 4, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r anghydfod i'w ystyried gan berson penodedig o dan adran [*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*].
- (7) Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniad o dan is-adran [6], roi sylw i'r argymhellion a wneir gan y person penodedig o dan adran [*yr adran sy'n cael ei fewnosod gan welliant 7*](1).'

Antoinette Sandbach

7

To insert a new section –

[] Recommendation by appointed person

- (1) The Welsh Ministers must appoint a person (“the appointed person”) to consider the dispute and make recommendations to the Welsh Ministers.
- (2) The dispute must be considered in accordance with this Act.
- (3) An appointment under paragraph (1) –
 - (a) must be in writing;
 - (b) may relate to any particular dispute specified in the appointment or to disputes of a class or description so specified;
 - (c) may be subject to such conditions as may be specified in the appointment;
 - (d) may provide for payment to be made to the appointed person.
- (4) In respect of any dispute that has not been the subject of recommendations, the Welsh Ministers may revoke an appointment under paragraph (1) if they are –
 - (a) notified in writing by the appointed person; or
 - (b) are otherwise satisfied;that the appointed person is unable to carry out the requirements of paragraph (1).
- (5) Where an appointment is so revoked in respect of any dispute, the Welsh Ministers must, as soon as practicable, appoint another person under paragraph (1) to consider the dispute.
- (6) Where a new appointment is made, the consideration of the dispute must be begun afresh.
- (7) Nothing in paragraph (6) requires any person to be given an opportunity to make fresh representations or comments or to modify or withdraw any representations or comments already made.’.

I fewnosod adran newydd –

[] Argymhelliad gan berson penodedig

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person (“y person penodedig”) i ystyried yr anghydfod ac i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru.
- (2) Rhaid ystyried yr anghydfod yn unol â’r Ddeddf hon.
- (3) Pan wneir penodiad o dan baragraff (1) –
 - (a) rhaid gwneud y penodiad mewn ysgrifen;
 - (b) ceir gwneud y penodiad ar gyfer unrhyw anghydfod penodol a bennir yn y penodiad, neu ar gyfer dosbarth neu ddisgrifiad o anghydfod a bennir felly;
 - (c) caiff fod yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir yn y penodiad;
 - (d) caiff ddarparu ar gyfer talu i’r person penodedig.

- (4) Mewn perthynas ag unrhyw anghydfod na fu'n destun argymhellion, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu penodiad a wnaed o dan baragraff (1) os –
 - (a) hysbysir hwy mewn ysgrifen gan y person penodedig, neu
 - (b) os bodlonir hwy rywfodd arall,nad yw'r person penodedig yn alluog i gyflawni gofynion paragraff (1).
- (5) Pan ddirymir penodiad felly mewn perthynas ag unrhyw anghydfod, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, benodi person arall o dan baragraff (1) i ystyried yr anghydfod.
- (6) Pan wneir penodiad newydd, rhaid i'r ystyriaeth o'r anghydfod ailddechrau o'r newydd.
- (7) Nid oes dim ym mharagraff (6) sy'n gwneud yn ofynnol rhoi cyfle i unrhyw berson wneud sylwadau neu esboniadau newydd, nac addasu na thynnu'n ôl unrhyw sylwadau neu esboniadau a wnaed eisoes.'

*** Angela Burns**

8

To insert a new section –

[] Guidance

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance to local authorities in relation to their functions under this Act within 3 months of the day on which this Act receives Royal Assent.
- (2) In the exercise of its functions under this Act, a local authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers.
- (3) The Welsh Ministers may –
 - (a) give guidance either generally or to specified descriptions of local authorities;
 - (b) revise the guidance by giving further guidance under this section;
 - (c) withdraw the guidance by giving further guidance under this section or by notice.
- (4) The Welsh Ministers must publish any guidance or notice under this section.'

I fewnosod adran newydd –

[] Canllawiau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon o fewn 3 mis i'r diwrnod y bydd y Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol.
- (2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru –
 - (a) rhoi canllawiau yn gyffredinol neu i ddisgrifiadau penodedig o awdurdodau lleol;
 - (b) diwygio'r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon;
 - (c) tynnu'r canllawiau yn ôl drwy roi canllawiau pellach o dan yr adran hon neu

drwy hysbysiad.

- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan yr adran hon.’.

*** Antoinette Sandbach**

9

Section 5, page 3, line 12, after ‘authority’, insert –
‘ –

- (a) must pay from that excess any costs reasonably incurred by the occupier of the land upon which the horse was seized; and
(b) ‘.

Adran 5, tudalen 3, llinell 12, hepgorer ‘mae’r awdurdod lleol yn’ a mewnosoder –
‘rhaid i’r awdurdod lleol –

- (a) dalu o’r swm dros ben hwnnw unrhyw gostau a dynnwyd yn rhesymol gan feddiannydd y tir yr ymfaelwyd y ceffyl arno; ac
(b) mae’n’.

*** Antoinette Sandbach**

10

Section 5, page 3, line 12, after ‘the’ at the third place where it appears, insert ‘balance of the’.
Adran 5, tudalen 3, llinell 12, hepgorer ‘dalu’r’ a mewnosoder ‘dalu gweddill y’.